Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Ragfyr 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) – Bryncir, Clifford Williams, Dylan Pritchard – Garndolbenmaen, Richard Williams – Prenteg, Delyth Evans Manon Jones-Evans – Pentrefelin, Megan Ll Williams – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Huws Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 Ymddiheuriadau – Amanda N Owen, Gwilym Evans, Anwen Humphreys, Huw Pritchard, Richard Parry, John Jones Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 7/11/19. Clifford Williams yn datgan eu cywirdeb ac Iddon Edwards yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Problemau Parcio Garndolbenmaen – yn ystod cyfnod ymgynghori, derbyniwyd tri gwrthwynebiad i'r bwriad i osod llinellau dwbl melyn ar y lôn. O ganlyniad i hyn, nid yw'n bosib symud y cynllun yn ei flaen.

Rheilffordd Eryri – heb gadarnhau os ydynt wedi newid cyfeiriad y lamp.

Materion Priffyrdd

Lôn Golan a Lôn Ymwlch - rhannau o'r lonydd wedi cau fyny gyda choed. Bydd yr Archwilydd Priffyrdd yn ymweld i sefydlu os yw'r tyfiant oddi fewn goddefiad risg neu beidio.

Baw Ci – nid yw'r Adran Gwasanaethau Stryd yn bwriadu gosod biniau baw ci ym Mhentrefelin.

Y Fawnog - Swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri am ymweld cyn diwedd Rhagfyr.

Safle Bwrdd Dŵr Cwmystradllyn - Bwrdd Dŵr am glirio'r safle.

Damweiniau ardal Bryncir – A487 - anfonwyd llythyr y Cyngor Cymuned at yr Asiantaeth Cefnffyrdd ymlaen at Isadran Rheoli'r Rhwydwaith Llywodraeth Cymru. Yn ei ateb, eglurwyd nad ydynt wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth yr Heddlu am wrthdrawiadau 2019. Ar ôl derbyn y wybodaeth, byddant yn edrych os oes angen gwneud newidiadau i wella diogelwch y lôn.

Damweiniau wrth Bryn Refail Isaf – disgwyl ateb gan Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Pwyntiau Gwefru Trydan - derbyniwyd manylion ynglŷn â gosod pwyntiau gwefru trydan. Clerc i yrru'r wybodaeth ymlaen at Delyth Evans, Dylan Pritchard a Manon Jones-Evans.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Gwaith lledu'r llwybrau, clirio o dan y fainc a'r gornel ar y dde - derbyniwyd 2 bris am wneud y gwaith. Penderfynwyd derbyn y pris o £195.00. Gwenno Emlyn Huws yn cynnig ac Iddon Edwards yn eilio.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ty'n Ffridd i Ffridd Newydd – bwlch yn y wal wedi cael ei gau.

9 Adroddiad Pentrefi

Bryncir

Llecheiddior Uchaf i'r chwarel - Graean ar y lôn wrth y fynedfa i'r lôn fawr. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Pentrefelin

Lôn fawr allan o Bentrefelin i gyfeiriad Criccieth - pant yn y lôn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Adroddwyd am y diffyg golau yn y gyffordd sy'n troi i mewn i Dremadog o gyfeiriad Porthmadog. Cynghorydd Alwyn Gruffydd am godi'r mater yng nghyfarfod Cyngor Tref Porthmadog.

10 Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 Rhan 1 Adran 6

O dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd Adran 6 cyn diwedd 2019, a chyn diwedd bob trydedd flwyddyn ar ôl 2019. Penderfynwyd cwblhau'r templed oedd wedi cael ei lunio i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned.

11 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Praesept 2020/21.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Tai Teg Cofrestr Tai Fforddiadwy.
b Llywodraeth Cymru – Adolygu ffioedd ar gyfer claddu neu amlosgiad plant.
c Unllais Cymru – Rhaglen adnewyddu tocyn bws.
ch E-bost Cambrian News.

12 Cynllunio

Rhestrau 11/11/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/LB192A Cynllun diwygiedig. Gosod ffenestri to math cadwraeth ar y to drychiad Dwyreiniol, creu mynediad drwy'r talcen i drosi'r penty yn ystafell ymochi ag ychwanegu to dros y porth i'r drws blaen. Tŷ Newydd, Cwmystradllyn. LL51 9BQ Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/451A Cais amlinellol i adeiladu tŷ fforddiadwy deulawr. Tir ger Pen-y-Bryn, Penmorfa. LL49 9SB Gwrthwynebu ar sail nad oes angen lleol, dim mynediad i'r safle heb ddymchwel y wal a gwarchod coed ar y safle.

13 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dawns i Bawb, Neuadd Penmorfa, Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch, Cylch Meithrin Garndolbenmaen, Cwmni Drama Llanystumdwy. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63
Yr Wylan	=	£ 16.00
Ychwanegwyd:		
Idris Jones	=	£3108.00

Derbyniadau:

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,818.40 Cyfredol £12,744.12

14 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Rhoddion Ariannol
- Ceisiadau Cynllunio
- Cyfarchion yr Ŵyl

Gwefan – Cofnodion Tachwedd, Adroddiad Bioamrywiaeth.